# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Mair Newell**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**30 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Mair Newell wedi'i chofrestru ers 2011 ac yn gweithredu o gartref ei merch yn Aberteifi. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â gwarchodwr plant cofrestredig arall, Nicola Newell. Mae'n darparu gofal ar gyfer hyd at wyth plentyn o dan 12 mlwydd oed wrth weithio ar ei phen ei hun a hyd at wyth plentyn o dan 12 mlwydd oed wrth weithio gyda Nicola Newell. Mae'n gweithio rhwng 8am a 5pm ar ddydd Llun a dydd Mawrth ar ei phen ei hun ac yn gweithio o ddydd Mercher i ddydd Gwener gyda Nicola Newell. Mae'r gofal yn cael ei gynnig yn Gymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn mwynhau ystod eang o weithgareddau diddorol. Maent yn hapus, wedi setlo'n dda ac mae ganddynt lais cryf. Mae'r plant yn cael budd o warchodwr plant sy'n garedig, yn amyneddgar ac yn addfwyn. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn gyfforddus. Mae gan y gwarchodwr plant sgiliau gweinyddol da ac mae ei dogfennau a'i chofnodion yn drefnus.

**2. Gwelliannau**

Prynwyd cyfarpar a theganau newydd fel gemau mathemategol pren a thŷ gwydr 'pop up'.
Mae ardal cegin fwd wedi cael ei chreu yn yr ardd.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben a'r contractau. Mae'r rhain wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad ym mhwynt 5:2.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac wedi datblygu cydberthnasau cadarn â'r gwarchodwr plant. Maent yn dechrau eu chwarae eu hunain ac yn mwynhau eu profiadau chwarae. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn mynegi eu hunain mewn ffordd hyderus. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus, ac maent yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt.

Roedd y plant yn gwneud penderfyniadau'n barhaus ynglŷn â'u gweithrediadau a'u gweithgareddau. Gwnaethant ddewis beth roeddent am chwarae a symud yn hyderus i gael y teganau roeddent am eu cael. Er enghraifft, bu'r plant yn gwthio trên mobilo yn llawn cymeriadau yn hapus o gwmpas llawr yr ystafell fyw. Cynigodd y gwarchodwr plant degan arall iddynt i roi yn eu trên ond trodd y plentyn at y gwarchodwr plant yn hyderus gan ddweud, "Nan Nan that is not lego and it's not going to fit!" Yna penderfynodd y plentyn ei fod am chwarae ceir. Gwnaethant wthio'r ceir o gwmpas y map ffordd i chwarae ceir. Gwnaethant ofyn i'r gwarchodwr plant ymuno ond yn ddiweddarach dywedodd y drefn wrthi'n dyner am wthio'r ceir o amgylch yn y cyfeiriad anghywir. Gwnaethant ofyn am gymorth pan roedd ei angen, er enghraifft, gofyn am eu byrbryd neu os oedd angen iddynt fynd i'r toiled. Roedd y plant yn hyderus y byddai ymateb cadarnhaol i'w ceisiadau.

Mae gan y plant lais clir.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac yn teimlo'n gartrefol.

Roedd y plant yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol a'r amgylchedd. Roeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i adnoddau ac yn mynd ar eu hôl yn annibynnol. Gwnaethant gael y jig-sos a'r ceir allan yn ôl eu dymuniad ac aethant i nôl eu hesgidiau o'r cwpwrdd pan oedd yn amser mynd i'r ysgol. Gwnaethant sgwrsio yn hapus gyda'r gwarchodwr plant ynglŷn â mynd i ffair yr ysgol a gweld Siôn Corn. Gwnaethant ymlacio ar y soffa wrth gael diod o'u bicer. Gwnaethant ganu i'w hunain yn hapus wrth chwarae ar y llawr. Aeth y plant at y gwarchodwr plant i gael sicrwydd a chwtsh ar sawl achlysur. Gwnaethant roi cwtsh i'r gwarchodwr plant yn ddigymell am ddim rheswm amlwg a'i chusanu. Pan roedd hi'n bryd gadael i fynd i'r ysgol gyda'r gwarchodwr plant arall, mynnodd un plentyn gofleidio'r gwarchodwr plant wrth ddweud hwyl fawr.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn gartrefol wrth iddynt ryngweithio.

Gwnaeth plant ifanc grwydro o amgylch eu hamgylchedd yn hyderus. Roedd y plant yn chwarae gyda'r gwarchodwyr plant ac yn rhannu teganau ac adnoddau â nhw. Gwnaethant gymryd eu tro yn hapus i wthio’r trên tegan Mobilo o gwmpas yr ystafell fyw. Gwnaethant chwarae gêm o ddal gyda'r gwarchodwr plant gan chwerthin yn uchel wrth i'r disg gwympo i'r llawr. Chwaraeodd y plant a'r gwarchodwyr plant gêm o rolio disg drwy goesau'r plant o un gwarchodwr plant i'r llall. Yna gwnaethant newid safleoedd fel bod pawb yn cael y cyfle i fod yn y canol. Cymerodd y plant eu tro yn hapus mewn safleoedd gwahanol yn y gêm a grëwyd ganddynt.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu diddordebau eu hunain a dewis eu gweithgareddau diddorol eu hunain.

Roedd y plant yn chwarae gyda cheir ac yn eu rasio o gwmpas y map ffordd. Yna gwnaethant benderfynu bod y ceir wedi gyrru i mewn i'w gilydd a bod angen cael eu cludo i'r ysbyty. Gwnaethant ddefnyddio'r hofrennydd tegan i gludo'r ceir. Gwnaethant ganolbwyntio am beth amser ar symud y ceir o un ardal o'r mat i un arall wrth wneud synau ceir priodol. Yna gwnaethant ddechrau gêm lle roeddent yn rholio maes glanio'r hofrennydd at y gwarchodwr plant. Datblygodd y gêm hon ymhellach pan roliodd y gwarchodwr plant y ddisg drwy goesau'r plentyn at y gwarchodwr plant arall. Gwnaeth y plentyn weiddi chwerthin wrth iddo ffurfio twnnel gyda'i goesau er mwyn i'r disg rolio trwyddo. Gwnaeth un plentyn gwblhau pos mathemategol, gan drefnu dominos i mewn i drefn rifyddol, ac roedd yn wên o glust i glust ar ôl cwblhau'r pos.

Roedd y plant yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant yn fawr.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac maent yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd.

Gwnaeth y plant gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn hyrwyddo eu datblygiad. Er enghraifft, gwnaethant gwblhau jig-so rhifau. Gwnaethant gyfri pob rhan domino o'r jig-so a'u rhoi yn y drefn rifyddol gywir. Gwnaethant gyfri'r smotiau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cawsant gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau echddygol manwl drwy roi rhodenni a oedd yn lleihau o ran maint yn y tyllau cywir i gwblhau'r gêm. Roedd y plant yn mynd i grwpiau plant bach a grwpiau chwarae, gan gyfrannu at eu sgiliau cymdeithasol. Roedd ganddynt fynediad i'r ardd er mwyn ymarfer eu sgiliau echddygol manwl ac roeddent yn aml yn chwarae yn y parc lleol. Roedd y plant bach yn gallu mynd i'r toiled a golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol. Gwnaethant roi eu tywel papur a ddefnyddiwyd yn y bin a ddarparwyd. Gwnaethant fwydo eu hunain gyda chyllyll a ffyrc maint plentyn amser cinio a defnyddio cwpan top agored ambell waith.

Mae'r plant yn cael eu cymell i ddatblygu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffordd iach o fyw ac yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel. Mae'n rheoli rhyngweithio yn bwyllog ac yn arwain drwy esiampl. Mae'n gyfarwydd ag anghenion unigol y plant yn ei gofal ac yn hyrwyddo eu hannibynniaeth.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Dilynodd y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau diogelwch priodol.

Roedd gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn plant ac wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Rhoddodd amlinelliad clir o'i hymateb pe bai ganddi bryderon. Roedd cofnodion ar gael i ddangos tystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd. Roedd ganddi hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd cyfredol. Roedd yn ymwybodol o alergenau ac roedd ganddi weithdrefnau ar waith i gadw bwyd pob plentyn ar wahân. Roedd yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gan sicrhau bod chwarae yn yr awyr agored yn rhan annatod o'r gwasanaeth yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd â'r parc lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl gadarnhaol i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl da ac roedd hi'n dyner ac yn amyneddgar gyda'r plant. Eisteddodd ar y llawr gyda'r plant a sgwrsio â nhw yn gyson ar lefel yr oeddent yn ei deall. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda yn ystod ein hymweliad. Gwnaethant geisiadau yn gwrtais a diolch i'r gwarchodwr plant bob tro. Taflodd un plentyn y teganau i mewn i focs wrth iddynt dacluso. Eglurodd y gwarchodwr plant yn amyneddgar ac yn bwyllog y byddai'r teganau yn torri wrth gael eu taflu'n galed i mewn i'r bocs a bod angen eu rhoi yn dyner yn y bocs. Ymatebodd y plentyn yn gadarnhaol i'r gwarchodwr plant a gwnaeth roi'r teganau yn y bocs yn dyner. Ymatebodd y gwarchodwr plant yn gadarnhaol i'r plant er enghraifft, pan oedd plentyn yn chwarae gêm o ddal dywedodd hi, "Da iawn. "Ti yn dal e bob tro!"

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad mewn ffordd fedrus.

#### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch meithringar a gofalgar ac mae'n ymateb i anghenion unigol y plant yn dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn gariadus gyda'r plant yn ei gofal. Roedd holiaduron y plant yn cadarnhau hyn. Er enghraifft, roedd un ymateb yn cynnwys, "I can tell Nan Nan if I have a problem." Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion. Casglodd wybodaeth am hoffterau a chas

bethau'r plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Sychodd drwynau'r plant a'u hannog i sychu eu trwynau eu hunain. Siaradodd yn hyderus am hoffterau ac arferion y plant yn ei gofal. Er enghraifft, roedd yn gwybod y byddai rhai plant am wylio'r teledu ar ôl dychwelyd o'r ysgol tra y byddai plentyn arall am chwarae yn yr ardd. Mae'n cynllunio gweithgareddau misol gyda'r plant fel cynllunio crysau t neu goginio pice ar y maen. Rhoddodd wybod i'r rhieni am gerrig milltir, gweithgareddau a chyflawniadau eu plant yn nyddiaduron dyddiol y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, yn lân ac yn addas i'r plant. Mae'n defnyddio'r gegin a'r ystafell fyw i ofalu am y plant. Gall y plant fynd allan i'r ardd awyr agored amgaeedig.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Roedd y safleoedd yn ddiogel gyda'r drws ffrynt wedi'i gloi ac roedd yr ardd yn gwbl amgaeedig. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o'r holl ymwelwyr. Roedd y safle yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Roedd holiaduron y rhieni yn cadarnhau hyn er enghraifft, "house always clean and tidy." Roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal asesiadau risg ar ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Roedd wedi cynnal asesiadau risg trylwyr ar ymweliadau addysgol a theithiau bws. Roedd cyfarpar diogelwch yn ei le fel giatiau diogelwch. Cofnodwyd ymarferion tân misol. Roedd y larymau mwg a charbon monocsid yn cael eu harchwilio'n aml. Roedd cyfarpar tân fel blanced tân a diffoddwr tân wedi'u lleoli yn y gegin. Gosodwyd boeler newydd ym mis Hydref 2018. Roedd cyfarpar glanhau yn cael ei gadw mewn cwpwrdd yn y gegin nad oedd y plant yn gallu mynd i mewn iddo.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle yn groesawgar ac mewn cyflwr da.

Roedd digon o le a chyfleusterau ar y safle a gallai'r plant fynd i nôl y teganau a'r adnoddau'n hawdd. Roedd gwaith y plant yn cael ei arddangos yn y gegin fel lliwio, paentiadau, lluniau sialc a lluniau gliter. Roedd y plant yn defnyddio bwrdd maint oedolion i liwio, cynnal gweithgareddau crefft a bwyta cinio. Roedd sedd doiled fach a gris ar gael i'r plant i fynd i'r toiled a'r sinc. Roedd y plant yn sychu eu dwylo â thywelion papur. Roedd y plant yn gallu defnyddio gardd amgaeedig. Ni wnaethant chwarae yn yr ardd yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd cyfarpar addas fel trampolîn, siglen ac ardal cegin fwd fach i'r plant i chwarae.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cyfarpar ac adnoddau addas ar gael i'r plant.

Roedd y teganau yn lân ac mewn cyflwr da. Yn yr ystafell fyw, roedd amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran a gallai'r plant fynd i'w nôl yn hawdd. Roedd y teganau hyn yn cynnwys er enghraifft, llyfrau, jig-sos, deinosoriaid, doliau a phramiau.

Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft fel paent, gliter a glud. Roedd cyfarpar fel matiau newid a stepiau mewn cyflwr da. Roedd detholiad o gyfarpar ac adnoddau yn yr ardal awyr agored a oedd mewn cyflwr da ac yn addas i'r plant chwarae â nhw fel cerbydau reidio, beiciau, sgwteri, pabell 'pop up' a pheli.

Mae'r gwarchodwr plant bob amser yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

## Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn amlwg yn mwynhau gofalu am y plant. Mae'n cadw'r holl gofnodion a dogfennau gofynnol ac mae ganddi sgiliau trefnu da. Mae ganddi bartneriaethau da â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol fodd bynnag, gan fod y gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â gofalwr plant arall, mae angen i'r datganiad o ddiben nodi'n glir pwy sy'n gofalu am y plant ar ddiwrnodau ac amseroedd penodol. Cadarnhaodd holiaduron y rhieni eu bod yn hapus â'r wybodaeth y maent yn ei chael am y gwasanaeth. Roedd yr holl gofnodion a dogfennaeth gofynnol ar gael ac roeddent yn drefnus. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael yr holl ffurflenni angenrheidiol gan y rhieni, fel gwybodaeth bersonol, contractau a llofnodion ar ffurflenni damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y gwarchodwr plant nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, fel amddiffyn plant a pholisi ymddygiad cadarnhaol. Roedd wedi dylunio polisi technoleg gwybodaeth newydd a pholisi chwarae pob tywydd.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau i adolygu ei gwasanaeth ac mae'n gwerthfawrogi adborth gan y rhieni a'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi holiaduron i'r rhieni a'r plant yn gofyn am eu hadborth ar ei gwasanaeth. Roedd adborth gan y rhieni a'r plant yn gadarnhaol iawn gyda sylwadau fel, "second home to my children" a "I like painting and playing in the garden."  Roedd ansawdd y gofal yn nodi gwelliannau fel prynu tŷ gwydr 'pop up' er mwyn tyfu llysiau a phrynu gemau mathemategol newydd. Roedd y gwarchodwr plant yn gofyn am farn y plant yn rheolaidd ac yn ymateb i'w barn a'u ceisiadau. Er enghraifft, roedd y plant yn cynllunio gweithgareddau misol y byddent yn hoffi cymryd rhan ynddynt. Roedd ceisiadau'n cynnwys ymweliadau â'r traeth, y llyfrgell a'r sinema yn ogystal â gweithgareddau crefft Nadolig. Roedd y gwarchodwr plant wedi prynu deunyddiau crefft Nadolig.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso ei gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Roedd gan y gwarchodwr plant brofiad a chymwysterau gofal plant priodol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Roedd ganddi dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Roedd ganddi dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn drefnus.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n agos gyda'r rhieni, gwarchodwr plant arall ac yn mynd i grwpiau plant bach yn y gymuned.

Roedd gan y gwarchodwr plant gydberthynas waith dda â'r rhieni ac roedd hi'n darparu dyddiadur dyddiol o weithgareddau i'r plant. Roedd y gwarchodwr plant yn cydweithio â gwarchodwr plant arall gan rannu arfer da. Roedd hi'n mynd â'r plant i grŵp plant bach yn rheolaidd gan sicrhau bod y plant yn rhan o'r gymuned. Roedd yn cysylltu â'r ysgol leol gan basio llythyron a gwybodaeth ymlaen i'r rhieni. Roedd y dyddiaduron dyddiol yn cadarnhau hyn. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r gwarchodwr plant a'r gwarchodwr plant arall y mae hi'n gweithio ochr yn ochr â hi, yn mynd â'r plant ar ymweliadau addysgol.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaeth gadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

# 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn ei fod wedi'i nodi'n glir yn y datganiad o ddiben ac yn y contractau pa warchodwr plant sy'n gofalu am y plant ar ddiwrnodau penodol.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd cyfnod byr o rybudd i'r gwarchodwr plant er mwyn cadarnhau ei bod ar gael.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 5 Rhagfyr 2018 am gyfanswm o 4 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach. Gwnaethom

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion gofal
- siarad â'r plant a'r gwarchodwyr plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Person Cofrestredig | Mair Newell |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 8 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 5pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Awst 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 05 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |